

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Morfudd Williams (Henllan) a Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd; tra bod Bronwen Williams (Cefn Berain) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari fel ag y mae Beryl Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Rhuthun. Cyflwynwn y pedwar i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn. Mae Peter Jones (Groes) wedi mynd i Hafod y Parc, Abergele i gael gofal ychwanegol am ychydig wythnosau yn dilyn ei lawdriniaeth ddiweddar. Parhawn i gofio amdano ac am Gwyn H. Davies (Hiraethog) sydd, erbyn hyn, wedi symud i gartref yr Hen Ficerdy ym Mhandy Tudur. Hyderwn y bydd yn setlo yno'n fuan ac y bydd yn elwa o'r gofal sydd mor gyfarwydd i lawer o'n teuluoedd o law'r staff yno. Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd a chyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i Bethan a Dave Barclay (Llanfair) ar enedigaeth Wiliam Robert (Wil), brawd bach i Magi. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.

Adnoddau defnyddiol

Rhag ofn nad ydych chi'n ymwybodol, mae 48 o daflenni gwaith Beiblaidd yn adrodd hanes Stori'r Nadolig ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o wefan y Cyngor Ysgolion Sul. Defnyddiwch y ddolen yma i ddod o hyd iddyn nhw!
http://ysgolsul.com/?page_id=1564

I ddod

- **CYFARFOD ARBENNIG O'R HENADURIAETH** nos Fawrth, Tachwedd 24ain, yn Nhrefnant am 6.00 i drafod y dogfennau a ddaeth i law. Mae'r cyfarfod yn agored i flaenoriaid a swyddogion holl eglwysi'r Henaduriaeth.
- **"GWISGO MERCH AR DRAWS Y BYD"** Un o'r syniadau a gafwyd trwy gyflwyniad Sarah Morris (Rhaglen Dorcas) yng Nghyfarfod Chwiorydd yr Henaduriaeth yn Henllan yn ddiweddar oedd y byddai darparu dilledyn newydd 'yn rhodd heb ei ail' i blant mewn angen ar draws y byd. Bwriedir cael noson yn Festri Llansannan nos Wener, Tachwedd 27ain i ddechrau ar y prosiect o bwytho ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Dewch â chas gobennydd a thaclau gwnio/gweu hefo chi (a pheiriant gwnio os oes ganddoch un) ac fe fydd Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) a Dawn Wilks (Llansannan) yno i roi arweiniad i ni. Croeso i bawb o bob oed!
- **OEDFA'R FRO AR DAITH** nos Sul, Tachwedd 29ain am 6.00 – y tro hwn yn Llanefydd. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin yn pregethu.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Rhufeiniaid 13:8-10 (BCND tud.177 / BCN: tud.162)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15^{fed} Tachwedd 2015

Darlleniad y Dydd

Mathew 1:18-21

(BCND tud.1 / BCN: tud.1)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso mawr i oedfaon y dydd heddiw. Wedi nodi awr a dydd cadoediad yr wythnos hon, beth am geisio gwir heddwch Duw gyda'n gilydd wrth i ni ddod at y Gair a cheisio lesu o'r newydd? Trwy lesu y down i heddwch hefo Duw a chael sefyll mewn gras. (Rhufeiniaid 5: 1-2) Trwy lesu hefyd, a'i ras, rydan ni yn gallu aros mewn heddwch hefo'n gilydd a chefnogi'n gilydd mewn cariad (1 Ioan 4: 19-21).

Rydan ni wedi derbyn dogfennau pwysig yn ddiweddar i'w darllen cyn y cyfarfod arbennig o'r Henaduriaeth sy'n cyfarfod ar y 24ain o'r mis. Byddwn yn trafod yr eglwys a phriodas, y priodoldeb o fendithio priodasau hoyw, awdurdod y Beibl, natur y weinidogaeth i'r dyfodol a sut i ariannu'r weinidogaeth. Fe fydd angen doethineb mawr ar bob un ohonom a dyhead mawr i gadw heddwch rhyngom ac i gynnal ein gilydd mewn gweddi.

Wrth i'r eglwys geisio dod i safbwynt ar fater fel priodas cyplau o'r un rhyw, neu'r defnydd o'n harian a'n heiddo, mae sawl dehongliad o'r Beibl yn bosibl. Dyma ran o ddirgelwch hanes yr eglwys dros y canrifoedd – sut y mae pobl dduwiol a deallus yn gallu dehongli'r Beibl mewn gymaint o ffyrdd gwahanol! Y perygl mawr ymhob oes ydi defnyddio'r Beibl, neu o leiaf rhai adnodau yn y Beibl, i gyfiawnhau ein safbwyntiau ni ac nid fel arall, sef gadael i'r Beibl siarad hefo ni mewn awdurdod ac i ni gael ein argyhoeddi gan yr Ysbryd Glân wrth ei ddarllen.

Perygl mawr arall ydi codi adnodau allan o'u cyd-destun hanesyddol a'r bwriad gwreiddiol a oedd gan yr awdur wrth ysgrifennu'r geiriau. Mae yna ystyr naturiol, uniongyrchol i eiriau'r Beibl a gwirionedd canolog i bob paragraff sydd wedi ei ysbrydoli i'n dysgu, i'n disgyblu mewn cyfiawnder, i'n rhybuddio a'n ceryddu. (2 Timotheus 3:16) Mae'n bwysig peidio osgoi'r gwirioneddau amlwg yma wrth fynd ati i gymhwyso'r gair i'n bywyd ni ac i fywyd ein cymdeithas gyfoes. Rhaid i ni hefyd edrych ar y Beibl cyfan wrth geisio dealltwriaeth o rhyw egwyddor fawr fel natur priodas neu hawl Duw ar ein harian a'n heiddo – ac astudio pob rhan er mwyn gweld sut y mae'r Beibl yn ategu ei hun yn gyson, trwyddo draw.

Fe ddaw'r Beibl â ni i adnabod lesu – dyma'r peth pwysicaf oll i bob un ohonom. Gallwn anghydweld ar lawer o faterion ond feiddiwn ni ddim anghydweld ar hyn, sef mai yn lesu, ac ynddo Ef yn unig y mae ein diogelwch a'n lles tragwyddol yn gorffwys. Mae pob bendith, sancteiddhad a llawenydd i ni yn lesu a'i waith gorffenedig, a phob un o gwestiynau'r dydd yn gorfod dod i'r fan lle byddwn yn gofyn beth fyddai lesu ei hun yn ei gymeradwyo neu yn ei fendithio yn y sefyllfa yma? Er enghraifft, 'Beth fyddai'r lesu yn ei gymeradwyo fel defnydd i'r arian yma sydd gen i?' neu 'A fyddai lesu yn bendithio priodas cwpl o'r un rhyw?' Wedi'r cyfan, lesu'n unig fydd yn barnu holl weithredoedd a meddyliau'r byd. (Ioan 5)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul nesaf – 15^{fed} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 17^{eg} • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng NGHEFN MEIRIADOG am 7.30.
- Mercher – 18^{fed} • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Iau – 19^{eg} • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 20^{fed} • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 22^{ain} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Dylan a Rhian Williams yn cyflwyno Elen Wyn i gael ei bedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun – 16^{eg} Noson yng nghwmni Gwion a Sarah Dafydd fydd gan Gymdeithas Llansannan yn y Ffestri am 7.30. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron am 2.00.
- Mawrth – 17^{eg} Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn Ffestri Groes am 7.30. Eleri Jones, Llanelwy fydd yn arddangos ei gwaith.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Mawrth – 17^{eg} Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn Ffestri Groes am 7.30. Eleri Jones, Llanelwy fydd yn arddangos ei gwaith.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 ac fe wneir casgliad arbennig i 'Argyfwng y Ffoaduriaid' trwy law Tearfund, a bydd yr Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.
- Mawrth – 17^{eg} Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn Ffestri Groes am 7.30. Eleri Jones, Llanelwy fydd yn arddangos ei gwaith.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Gwener – 20^{fed} Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Tachwedd 15fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol a chymun i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 11.15.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📱 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.